

Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Lleoliad Allanol

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2022

Amser: 09.01

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd) Lesley Griffiths AS Darren Millar AS Siân Gwenllian AS
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc) Yan Thomas (Dirprwy Clerc)
Eraill yn bresennol	Jane Dodds AS David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd Siwan Davies (Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd Dros Dro Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth Helen Carey, Llywodraeth Cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn i fusnes dydd Mawrth:

- ~~Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Diweddariad ar Ddiogelwch Adeiladau (30 munud) – tynnwyd yn ôl~~
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Diweddariad ar gostau byw (30 munud)

Dywedodd y Trefnydd y bydd y Diweddariad ar Ddiogelwch Adeiladau yn debygol o gael ei gyhoeddi fel Datganiad Ysgrifenedig yn ddiweddarach y mis hwn.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.05pm.

Dydd Mercher

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm.

3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Ni wnaed unrhyw newidiadau i amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 22 Mehefin 2022 –

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Pedwerydd Adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9 (15 munud)

Dydd Mercher 6 Gorffennaf 2022 –

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Y weithdrefn ar gyfer delio â chwynion yn erbyn Aelodau'r Senedd (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

3.4 Dadl Aelodau: Dewis Cynigion ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion a gyflwynwyd a chytunodd i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 22 Mehefin:

NNDM8018

Mabon ap Gwynfor

Luke Fletcher

Buffy Williams

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod Cymru'n gartref i filoedd o grwpiau cymunedol lleol, gyda channoedd yn rhedeg asedau sylweddol sy'n gwneud eu cymunedau'n lleoedd gwell i fyw ynddynt.

2. Yn cydnabod y cyfraniad enfawr y mae grwpiau cymunedol wedi'i wneud o ran cefnogi pobl leol drwy heriau'r pandemig.
3. Yn nodi bod Llywodraeth flaenorol Cymru wedi cytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y dylai "ddatblygu rhaglen o rymuso cymunedau ledled Cymru gyda'r sector gwirfoddol, gan weithredu fel gwladwriaeth alluogi ar gyfer gweithredu cymunedol".
4. Yn nodi'r rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn aml yn ei chwarae o ran sicrhau perchnogaeth gymunedol ar asedau, a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill i sicrhau menter gymunedol lwyddiannus.
5. Yn nodi adroddiad diweddar y Sefydliad Materion Cymreig, Ein Tir: Cymunedau a Defnydd Tir, a ganfu mai cymunedau Cymru yw'r rhai lleiaf grymus ym Mhrydain ac sy'n galw am ad-drefnu sylweddol ym maes polisi cymunedol yng Nghymru.
6. Yn nodi ymhellach adroddiad diweddar Canolfan Cydweithredol Cymru, Tir ac asedau sy'n eiddo i'r gymuned: galluogi cyflawni tai fforddiadwy a arweinir gan y gymuned yng Nghymru.
7. Yn nodi nad oes gan Gymru, yn wahanol i'r Alban a Lloegr, unrhyw ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r hawl i gymunedau brynu asedau lleol o werth cymunedol.
8. Yn credu bod galluogi grwpiau cymunedol i gadw adeiladau a thir lleol fel cyfleusterau cymunedol a'u cefnogi i ddatblygu cymunedau gweithgar ac ymgysylltiedig yn allweddol i adeiladu Cymru fwy ffyniannus, cyfartal a gwyrddach.
9. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:
 - a) cydweithio i greu strategaeth cymunedau i ddatblygu cyflwr sy'n galluogi gweithredu cymunedol;
 - b) edrych i mewn i'r opsiynau cyfreithiol ar gyfer sefydlu hawl gymunedol i brynu yng Nghymru.

[Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol](#)

[Ein Tir: Cymunedau a Defnyddio Tir](#)

[Tir ac asedau sy'n eiddo i'r gymuned: galluogi cyflawni tai fforddiadwy a arweinir gan y gymuned yng Nghymru](#)

A'r cynnig dilynol ar 13 Gorffennaf:

NNDM8028

Jane Dodds

Carolyn Thomas

Jack Sargeant

Luke Fletcher

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod nifer sylweddol o weithwyr o Gymru yn cael eu cyflogi mewn diwydiannau a fydd yn cael eu newid yn sylweddol fel rhan o'r broses o drosglwyddo Cymru i economi ddi-garbon;

b) pwysigrwydd sicrhau newid teg i economi ddi-garbon;

c) cynllun peilot incwm sylfaenol parhaus Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried sut y gellid ymestyn y cynllun peilot incwm sylfaenol i weithwyr yn y diwydiannau hyn er mwyn llywio'r broses o drosglwyddo Cymru i economi ddi-garbon.

4 Deddfwriaeth

4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

4.2 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) – Amserlen

Cafodd y Pwyllgor Busnes friff ar y broses ar gyfer craffu ar fil cydgrynhoi a chyfeiriodd Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer craffu. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ohirio penderfyniad ar yr amserlen ar gyfer y Bil er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor, a dychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

4.3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Caffael

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm ar y Bil Caffael at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 6 Hydref 2022.

5 Adolygu Rheol Sefydlog 34 a chyfranogiad o bell

5.1 Papur ar ddarpariaethau Rheol Sefydlog 34

Trafododd y Pwyllgor Busnes nifer o'r darpariaethau presennol a gynhwysir yn Rheol Sefydlog 34 (Gweithdrefnau Brys) a chytunodd i gynnig caniatáu i'r Rheolau Sefydlog a ganlyn fynd yn ddi-rym ar 1 Awst 2022:

- Y Llywydd yn adalw'r Senedd (Rheol Sefydlog 34.9)
- Cworwm yn y Cyfarfod Llawn (Rheol Sefydlog 34.10)
- Pleidleisio (wedi'i bwysoli) yn y Cyfarfod Llawn (Rheol Sefydlog 34.11–14)
- Cwestiynau llafar (Rheol Sefydlog 34.18)

- Pwyllgor Cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21 (Rheol Sefydlog 34.22–23)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddychwelyd at drafodaeth bellach ar y Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Llywydd Dros Dro Dynodedig (Rheol Sefydlog 34.2–4) a Chadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn (Rheol Sefydlog 34.5–8) yn y cyfarfod canlynol.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y byddai pleidleisio electronig o bell yn cael ei gadw yn y Rheolau Sefydlog i'w ddefnyddio mewn sefyllfaoedd brys yn y dyfodol, ni waeth beth fo'r penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd dilynol ynghylch ei ddefnydd rheolaidd parhaus.

6 Unrhyw fater arall

Pleidleisiau o ran Bil Aelod

Dywedodd y Llywydd wrth y Pwyllgor Busnes y bydd yn cyhoeddi yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma y cynhelir y balot nesaf ar gyfer Biliau Aelodau ar 13 Gorffennaf. Bydd gwybodaeth am y broses yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau cyn diwedd y dydd.

Cynhadledd Seneddol Flynyddol y Gymanwlad (CPC)

Gwahoddodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes i dynnu sylw eu grwpiau at y mater o bresenoldeb yng Nghynhadledd Seneddol Flynyddol y Gymanwlad a gynhelir yng Nghanada rhwng 20 a 26 Awst. Mae rheolau cangen y CPA yn nodi y dylai'r cynrychiolydd fod yn aelod benywaidd ar yr adegau hynny pan fydd y Gynhadledd yn cael ei chynnal yr un pryd â chynhadledd ac etholiad Seneddwragedd y Gymanwlad, a gaiff eu cynnal bob tair blynedd. Fodd bynnag, nid yw'r gangen wedi cael cais gan Aelod benywaidd. Caiff y Rheolwyr Busnes eu gwahodd i roi gwybod i'w grwpiau ac i fynd ar drywydd unrhyw geisiadau gan Aelodau benywaidd.